


Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Pen Cemaes

Teithiau Hanner Dydd a Mwy



GRADDFA: 0 300 600 m

PELLTER/HYD: 5.0 milltir (8.0 km) 3 awr

CLUDIANT CYHOEDDUS: Bws gwasanaeth Traeth Poppit 407/409,
*Poppit Rocket 405 (*tymhorol, galw a teithio)

CYMERIAD: Arfordir garw, caeau a da byw


CHWILIWCH AM: Ailgyflwyno pori arfordirol • y clogwyni uchaf yn y Parc Cenedlaethol (550tr)
• ffawtiau trawiadol yn y graig

CYMRWCH OFAL!

- Byddwch yn ofalus ar Llwybr yr Arfordir
- Cadwch at y Llwybr ac i ffordd o ymylon y clogwyni
- Gwisgwch esgidiau cryfion a dillad cynnes, sy'n dal dŵr
- Cymrwch ofal arbennig mewn tywydd gwyntog a/neu wlyb
- Cadwch lygad barcut ar blant a chwn bob amser
- Cofiwch gau gatiu

ALLWEDD

- ● ● ● ● Llwybr Cylch
- — — — — Llwybr Arfordir Sir Benfro
Llwybr Cenedlaethol
- - - - - Llwybrau Cyhoeddus
- P Maes Parcio
- WC Toiledau Cyhoeddus
- Safe Bws



Pen Cemaes

Teithiau Hanner Dydd a Mwy

Hyd: 3 awr

Pellter: 5.0 milltir (8.0 km)

Cludiant cyhoeddus: Bws gwasanaeth Traeth Poppit 407/409, *Poppit Rocket 405 (*tymhorol, galw a teithio).

Cyfeirnod map: SN131501

Taith ar hyd y clogwyni dramatig gyda golygfeydd gwych

Chwiliwch am: Ailgyflwyno pori arfordirol, y clogwyni uchaf yn y Parc Cenedlaethol (550tr), ffawtiau trawiadol yn y graig

Mae'r clogwyni môr uchaf yn y Parc rhwng Pen Cemaes a Phen-yr-Afr, ac yma y gwelwch chi'r clogwyni'n plygu ac yn gwyrddroi'n ddramatig (effaith symudiadau pwerus y ddaear orogenesis dros miliynau o flynyddoedd), sy'n datgelu strwythur a strata cramen y ddaear. Mae'r daith hon yn wych os am weld adar y môr, yn enwedig gwylanod fel yr wylan gefnddu. Mae gwylanod y graig, mulfrain, a gwylogod yn nythu ar y clogwyni yn ystod y gwanwyn ac yn gynnar yn yr Haf. Chwiliwch am y fran goesgoch (brain prin gyda phig a choesau coch sy'n gwneud triciau gwych yn yr awyr), cigfrain, cudyllod coch, bwncathod, clochdar y cerrig (stonechat) a'r jac-y-do hollbresennol.

Yn ddiweddar, wedi ailgyflwyno pori arfordirol gan ddefnyddio merlod, mae ansawdd y rhostir ar gopa'r clogwyni a'r cynefin glaswelltir ar gyfer y fran goesgoch ym Mhwynt-y-Bar wedi gwella. Mae clustog Fair a serennyn y gwanwyn yn gyffredin ar y llethrau i'r gorllewin a'r grug, y grug clochog, rhedyn a'r eithin yn gorchuddio'r rhos. Allan yn y bae, weithiau gellir gweld dolffiniaid trwynbwl ac mae morloi yn bridio ar y traeth o Awst i fis Hydref. Mae yna olygfeydd gwych tros Fae Aberteifi ac efallai y gwelwch chi Eryri ar ddiwrnod clir.

Mae Geraint Harries, Uwch Barcmon Sector y Gogledd gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, yn dweud: "Cofiwch fod yn wylidwrs. Os ydych chi am weld dolffiniaid neu lamhidyddion, yna mae Pen Cemaes yn un o'r mannau gorau ar hyd yr arfordir hwn."

Cymeriad: Arfordir garw, caeau a da byw.

Gwlad y Chwedlau

Cliciwch ar yr eiconau isod am chwedl leol, neu ewch i www.arfordirpenfro.cymru/chwedlau

